***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 272 (Cy. 64)

# BYWYD GWYLLT, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (Amrywio Atodlen 2) (Cymru) 2020

| | |
|---|---|
| *Made - - - -* | *10 Mawrth 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *11 Mawrth 2020* |

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 22(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(**1**).

At ddibenion adran 26(4)(a) o'r Ddeddf honno, nid yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod unrhyw awdurdod lleol yn cael ei effeithio gan y Gorchymyn hwn. Yn unol â'r adran honno, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi cyfle i unrhyw berson arall yr effeithir arno i gyflwyno gwrthwynebiadau neu sylwadau mewn perthynas â phwnc y Gorchymyn hwn.

Yn unol ag adran 26(4)(b) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, a Chorff Adnoddau Naturiol Cymru, sef y cyrff cynghorol(**2**) sydd, ym marn Gweinidogion Cymru, yn gallu eu cynghori orau a ddylid gwneud y Gorchymyn hwn ai peidio.

(**1**) 1981 p. 69. Diwygiwyd adran 22(1) gan adran 47(5) o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (p. 16). Trosglwyddwyd swyddogaethau Ysgrifennydd Gwladol Cymru o dan adran 22(1) i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd y swyddogaethau hyn wedi hynny i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) Gweler y diffiniad o *"advisory body"* yn adrannau 23(3) a 27(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Sefydlwyd y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur o dan adran 128(4) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p. 43) ac mae'n parhau i fod (er iddo gael ei ailgyfansoddi) o dan adran 31 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006. Diddymwyd Cyngor Cefn Gwlad Cymru a throsglwyddwyd ei holl swyddogaethau i Gorff Adnoddau Naturiol Cymru drwy Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 (O.S. Cy. 2013/755 (Cy.90)). Crëwyd Corff Adnoddau Naturiol Cymru drwy Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (O.S. Cy. 2012/1903 (Cy.230)) fel y'i diwygiwyd gan O.S. Cy. 2013/755 (Cy.90).